




# Proses Gofrestru Ar-lein

Dyma'r camau y mae'n rhaid i'r person sy'n cwblhau cofrestriad landlord gyda Rhentu Doeth Cymru eu cymryd. Mae modd gwneud hyn i gyd ar ôl creu cyfrif ar-lein gyda Rhentu Doeth Cymru trwy'r dudalen Cofrestru. Pan fyddwch yn creu eich cyfrif gwelwch y sgrin ganlynol; er mwyn cwblhau cofrestriad landlord dylech 'dewis' yr Opsiwn Landlord a gwelwch dudalen gyntaf y broses gofrestru.

## Beth nesaf?

Dewiswch pa opsiwn sydd fwyaf perthnasol i chi. Os nad ydych yn siŵr, defnyddiwch ein holiadur rhyngweithiol. Os ydych chi'n meddwl eich bod yn Landlord, cliciwch [yma](#). Os ydych yn meddwl eich bod yn landlord sydd angen trwydded, cliciwch [yma](#). Os ydych yn meddwl y gallai fod angen trwydded asiant arnoch, cliciwch [yma](#).

 <h3>Landlord</h3> <p>Cofrestrwch fel landlord, a datgan yr eiddo rhent domestig sydd gennych yng Nghymru. Ar ôl hyn, os oes angen i chi wneud cais am drwydded gallwch wneud hynny, yn ogystal â chadw lle ar hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru.</p> <p><b>DEWISWCH</b></p>	 <h3>Asiant</h3> <p>Os ydych yn gwneud gwaith gosod neu reoli ar ran landlord mewn eiddo yng Nghymru, defnyddiwch y ffurflen ar-lein hon i wneud cais am drwydded asiant.</p> <p>Fel rhan o'r cais am drwydded asiant gallwch gadw lle ar hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru, ac os oes gennych gyflogaion sydd angen cael eu hyfforddi fel rhan o'ch cais am drwydded asiant gallwch eu gwahodd i gysylltu â'ch proffil ac yna trefnu hyfforddiant ar eu rhan.</p> <p><b>DEWISWCH</b></p>	 <h3>Trefnu Hyfforddiant</h3> <p>Os nad ydych yn cofrestru fel landlord, nac yn gwneud cais am drwydded, ond eich bod am gwblhau hyfforddiant (efallai ar gais cyflogai) gallwch drefnu hynny yma.</p> <p><b>DEWISWCH</b></p>
---	--	--

Os ydych wedi mynd heibio'r dudalen hon a'ch bod ar y dashfwrdd defnyddiwr unigol, cliciwch 'Crynodeb o'm Cyfrif' ar y chwith a sgrolwch i ddiwedd y dudalen a cliciwch ar 'Cofrestru Landlord Newydd'. Mae hyn yn mynd â chi i ddechrau'r broses gofrestru. Os oes angen i chi gofrestru fwy nag unwaith (efallai am eich bod yn landlord unigol sydd hefyd yn gyfrifol am gofrestru landlord Corfforaethol), gallwch wneud hynny drwy glicio'r botwm 'cofrestru landlord newydd'.

### Y Broses Gofrestru Ar-lein

<input checked="" type="checkbox"/>	Nodwch y trefniant landlord perthnasol (Unigol, ar y Cyd, Corff Corfforaethol, Cwmni, Elusen neu Ymddiriedolaeth)* <small>diffiniad isod</small>
<input checked="" type="checkbox"/>	Nodwch a yw'r ymgeisydd yn gosod neu'n rheoli unrhyw o'r eiddo rhent yng Nghymru y mae ar fin ei gofrestru.
<input checked="" type="checkbox"/>	Os yw'r ymgeisydd yn gosod neu'n rheoli unrhyw un o'i eiddo ei hun yng Nghymru ac os oes angen trwydded landlord arno o ganlyniad, gofynnir i'r person hefyd a yw'n prydlesu neu'n rheoli eiddo rhent ar ran unrhyw

	landlordiaid eraill yng Nghymru. Os mai ydy yw'r ateb, ar ddiwedd y broses gofrestru bydd yr ymgeisydd yn gweld tudalen ar gyfer gwneud cais am drwydded asiant, a fydd yn galluogi'r deiliad i gyflawni gweithgareddau landlord ac asiant.
<input checked="" type="checkbox"/>	Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd (rhif ffôn, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost).
<input checked="" type="checkbox"/>	Os ydych yn cofrestru cydlandlord yn unig: nodwch enw(au) a dyddiad(au) geni yr holl gydlandlordiaid a nodwch a ydynt yn cyflawni unrhyw weithgareddau gosod a rheoli mewn unrhyw o'r eiddo rhent ar y cyd yng Nghymru.
	<p>Nodwch y cyfeiriad ar gyfer pob eiddo y mae'r landlord yn ei rentu allan, boed yn Denantiaeth Sicr, Byrddaliad Sicr neu Denantiaeth Reoleiddiedig yng Nghymru. I sicrhau bod y broses mor gyflym â phosibl dylai'r cod post ar gyfer y cyfeiriadau fod gennych wrth law fel bo modd i chwiliwr cod post ddod o hyd iddynt.</p> <p>Ar gyfer pob eiddo a gofrestrir gofynnir y canlynol i chi hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa fath o eiddo yw e (e.e. ar wahân, teras, ac ati)?</li> <li>•</li> <li>• A ydy'r landlord yn gosod neu'n rheoli'r eiddo – Ydy/Nac ydy</li> <li>• A ydy Awdurdod Lleol yn gosod neu'n rheoli'r eiddo – Ydy/Nac ydy. Os ydy, gallwch ddewis pa ALI</li> <li>• A ydy'r asiant yn gosod neu'n rheoli'r eiddo – Ydy/Nac ydy. Os ydy, rhaid i chi geisio dod o hyd i'r asiant yn ein rhestr, defnyddiwch chwiliad cyffredinol i geisio dod o hyd i'r asiant fel y'i henwir ar ein rhestr yn hytrach nag enw rhywun yr ydych yn ei adnabod yn yr asiantaeth yn unig. Dim ond os na allwch ddod o hyd i'r asiant ar y rhestr y dylech ychwanegu manylion yr asiant. I sicrhau bod y broses mor syml â phosibl dylech ofyn i'ch asiant am yr enw iddo ddefnyddio wrth wneud cais am drwydded (gan mai ei enw cyfreithlon fydd e, nid ei Enw Masnachu o anghenraid).</li> </ul>
<input checked="" type="checkbox"/>	Rhaid talu'r ffi gofrestru; y ffi ar-lein yw £33.50
<input checked="" type="checkbox"/>	Cadarnhewch fod y wybodaeth yn gywir ac nad yw'n gamarweiniol; cofiwch mai proses gyfreithiol yw hon.
<p>Ar ôl cwblhau cofrestriad a'r holl gamau uchod a'i gyflwyno, cewch rif cofrestru swyddogol. Mae hyn bob amser yn dechrau gyda #RN. Yn ogystal anfonir eich cofrestriad atoch dros e-bost ac mae modd ei weld ar eich cyfrif ar-lein trwy'r amser.</p> <p><b>Nid yw cofrestriad yn ddilys ac ni fyddwch wedi cyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 oni bai bod gennych rif cofrestru #RN a gallwch weld eich cofrestriad i'w lawrlwytho yn eich cyfrif.</b></p>	

\*Mae landlord, at ddibenion deddfwriaeth, yn berson sydd â hawl i feddu'r eiddo. Yn y rhan fwyaf o achosion, perchennog yr eiddo fydd hyn. Felly gallai landlord y mae'n rhaid iddo gofrestru fod yn berson unigol, grŵp o bobl neu gwmni hyd yn oed (yn dibynnu ar berchenogaeth yr eiddo).

### **Landlord Unigol**

Os mai chi yw unig berchennog yr eiddo (gyda'ch enw yn unig ar y gweithredoedd) yna dyma'r opsiwn i chi.

### **Cydlandlord**

Os yw'r eiddo yn cael ei gofrestru ar sail cydberchenogaeth (h.y. mwy nag enw un person ar y gweithredoedd) yna dyma'r opsiwn i chi. Rhaid penodi un o'r cydberchnogion fel y person arweiniol i gofrestru ar ran y cydberchnogion eraill.

### **Corff Corfforaethol**

Os mai cwmni sy'n meddu'r eiddo, yna'r cwmni sy'n cofrestru fel y landlord. Rhaid i chi gwblhau'r cofrestriad trwy roi manylion y cwmni gan gynnwys y rhif cofrestru a gafwyd gan Dŷ'r Cwmnïau, y cyfeiriad swyddfa cofrestredig a chyfeiriad gohebiaeth.

### **Elusen**

Os mai elusen sy'n meddu'r eiddo, yna'r elusen sy'n cofrestru fel y landlord. Rhaid i chi gwblhau'r cofrestriad trwy roi manylion yr elusen gan gynnwys y rhif cofrestru a gafwyd gan Dŷ'r Cwmnïau, rhif cofrestru perthnasol arall, y cyfeiriad swyddfa cofrestredig a chyfeiriad gohebiaeth.

### **Ymddiriedolaeth**

Os mai ymddiriedolaeth sy'n meddu'r eiddo, gall un ymddiriedolwr wedi'i benodi gofrestru'r eiddo dan gydenw'r ymddiriedolaeth. Manylion yr ymddiriedolaeth y dylid eu rhoi, nid manylion yr ymddiriedolwr unigol sy'n cwblhau'r cofrestriad.

Os oes angen mwy o gymorth arnoch, ffoniwch ni ar 03000133344 a bydd cynghorydd yn hapus i'ch helpu.

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy ddefnyddio ein ffurflen cysylltwch â ni sydd ar ein gwefan: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/contact/>